# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 3ydd 2024 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Dewi Pritchard (cadeirydd), Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Rita Jones, Alwyn Jones, Gary Thomas, Iolo Evans, Gwenda Morris, Bethan Thomas, Maldwyn Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Yn dilyn eu profedigaethau diweddar, cydymdeimlwyd a Iolo Evans a'r clerc.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.</u>
i) Roedd y cais am fin baw cwn i bentref Llanfor wedi cael ei anfon ymlaen i Uned Gwastraff Cyngor Gwynedd.
ii) Coed mynedfa Clwb Carafanau Crynierth – roedd y brif swyddfa wedi cysylltu'n ôl ac am drafod y gwaith o dorri'r coed gyda'u contractwr.

<u>b) Mynwentydd.</u>
Cytunwyd y byddai'r cynghorwyr yn gwirfoddoli i gario'r pridd i mewn i fynwent Frongoch pan fyddai wedi cyrraedd.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Cynlluniau Ffermydd Gwynt.</u>
i) Fferm Wynt Gaerwen - Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio - trafodwyd yr hyn a welwyd yn y diwrnodau agored yn ddiweddar a'r llythyrau a dderbyniwyd gan drigolion lleol. Cytunwyd yn unfrydol i grynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd a'u cyflwyno i RWE.
ii) Fferm Wynt Foel Fach - datblygiad ynni adnewyddadwy newydd arfaethedig. Adroddodd y clerc bod y cwmni yn cynnal diwrnodau agored i rannu gwybodaeth am y cynlluniau ond nid oedd wedi derbyn y manylion eto.

<u>b) Cwmni Pum Plwy Penllyn</u>.
i) Trafnidiaeth Gymunedol – cais am lythyr o gefnogaeth. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr ar ran y Cyngor.

<u>c) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Cadarnhau cyfarwyddwyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.
ii) Ymgynghoriad system pleidlais sengl drosglwyddadwy.
iii) Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd - Galw am Safleoedd.
iv) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.

<u>ch) Un Llais Cymru.</u>
i) Canllaw ar rymoedd a pholisïau.
ii) Presenoldeb Aelodau – y Rheol 6 Mis.

<u>d) Amrywiol.</u>
i) Camu i'r Copa – Triathlon Y Bala, 1/9/24.
ii) Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Dweud eich dweud ar sut mae eich cymdogaeth yn cael ei phlismona.
iii) Cofeb Tryweryn – diweddariad.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-
C24/0543/04/AC – Amrywio amod 2 ar ganiatad cynllunio C24/0061/04/DT. Capel Soar, Maerdy.
Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Derbyniadau.
Derbyniwyd ail randal y Praesept - £4,500.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)
ii) Cyngor Gwynedd (archwilio cyfrifon 2023/24)

c) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan Cerebal Palsy Cymru a Chlwb Hoci Bala. Cytunwyd i gyfrannu £100 i Glwb Hoci'r Bala rwan a thrafod cais Cerebal Palsy Cymru gyda gweddill o'r ceisiadau a'r trafod ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**

a) Goleuadau traffig ar yr A494, Bethel.
Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Asiantaethau Cefnffyrdd i weld os oedd unrhyw ddatblygiad ynglyn â thrwsio'r ffordd. Roedd gweithwyr wedi cael eu gweld yn gosod bocys ystlumod ayyb ar y safle i fonitro bywyd gwyllt am fod bwriad i ledu'r ffordd. Roedd angen gosod arwyddion gyda rhif ffôn cyswllt ar y safle hefyd rhag ofn fod nam ar y goleuadau fel y fu'n ddiweddar.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 1af am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: ……………………………………..